O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 1102 (Cy. 264)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021

Gwnaed	*29 Medi 2021*
Yn dod i rym	*4 Hydref 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd a/neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) i Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Hydref 2021.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 4 Hydref 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar naill ai cerbytffordd tua'r gogledd neu gerbytffordd tua'r de y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4.—(1) Tra bo cerbydau'n cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gogledd, ond yn unol ag erthygl 12, nad ydynt yn cael eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r de, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn lôn allanol cerbytffordd y gefnffordd tua'r de i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gogledd.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Tra bo cerbydau'n cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbytffordd tua'r de, ond yn unol ag erthygl 12, nad ydynt yn cael eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gogledd, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn lôn allanol cerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r de.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n lletach na 3.2 metr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

11. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1, 4 a 5 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

12.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

13. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4 a 5 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan

fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 8, 9 a 10 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

14. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Medi 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 272 o fetrau i'r gogledd o linell ganol pont y B5425 New Road hyd at bwynt 1,200 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

ATODLEN 2
Gwahardd cerbydau llydan dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) hyd at ddiwedd trwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

ATODLEN 3
Gwahardd cerbydau a beicwyr dros dro

Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd a thua'r de wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

Y darnau o'r ffyrdd ymadael tua'r gogledd ac ymuno tua'r de wrth Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

ATODLEN 4
Terfyn cyflymder o 30 mya neu 40 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 70 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wydgrug) hyd at ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Broadoak, man i'r gogledd o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd) hyd at bwynt 40 metr i'r de o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

ATODLEN 5
Terfyn cyflymder 50 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o'r arwyddion adfer y terfyn cyflymder wrth ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) hyd at ganolbwynt Cyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Broadoak, man i'r gogledd o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd) hyd at y cyfyngiad cyflymder 50 mya parhaol wrth ganolbwynt Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).